HOME START Cymru




# Pecyn Recriwtio Ymddiriedolwyr

# Cynnwys


Croeso 3

Ynglŷn â Home-Start Cymru 4

Ein Strategaeth 5

Ein Heffaith ar Gip 6

Cyfleoedd Ymddiriedolwyr 7

Bod yn Ymddiriedolwr 8

Manyleb Person 9

Y Broses Ymgeisio 10

# Croeso

Diolch am gymryd yr amser i ddarganfod mwy am Home-Start Cymru a'n gwaith yn cefnogi teuluoedd a atgyfeirir atom ag anghenion cymorth ledled Cymru.

Fel Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, rwy'n hynod falch o'r hyn y mae'r sefydliad hwn yn ei gynrychioli: tosturi ar waith, cymuned mewn partneriaeth, a newid drwy gysylltiad.

Bob dydd, mae ein staff a'n gwirfoddolwyr ymroddedig yn cefnogi teuluoedd sy'n llywio rhai o heriau anoddaf bywyd, o galedi ariannol ac iechyd meddwl gwael i unigedd cymdeithasol a phwysau bod yn rhiant yn y blynyddoedd cynnar.

Yn Home-Start Cymru, credwn na ddylai unrhyw deulu deimlo'n unig, a bod pob rhiant yn haeddu'r hyder a'r cymorth i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant. Mae'r gred honno'n gyrru popeth a wnawn. Mae'n sail i'n cyfeiriad strategol, yn llywio ein partneriaethau, ac yn uno pawb sy'n gysylltiedig â'r elusen hon, o wirfoddolwyr a chyllidwyr i ymddiriedolwyr a staff.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn o her a chyflawniad. Rydym wedi cefnogi mwy o deuluoedd a phlant nag erioed o'r blaen, wedi cryfhau ein llywodraethu a'n systemau, ac wedi cyd-gynhyrchu strategaeth sefydliadol newydd feiddgar a fydd yn llywio ein gwaith hyd at 2030. Rydym wedi dyfnhau ein partneriaethau, wedi ehangu ein sylfaen ariannu, ac wedi parhau i ddylanwadu ar sgyrsiau cenedlaethol ynghylch tlodi plant, lles rhieni ac ymyrraeth gynnar. Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn hollbwysig i hyn i gyd.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, rydym yn chwilio am unigolion a fydd yn dod â'u harbenigedd, eu huniondeb a'u hangerdd i helpu i arwain ein pennod nesaf. Rydym yn chwilio'n arbennig am arbenigwyr mewn meysydd fel adnoddau dynol, masnachol, digidol a marchnata.

Os ydych yn rhannu ein cred ym mhŵer ymyrraeth gynnar, cysylltiad cymunedol a chymorth sy'n seiliedig ar berthnasoedd, ac eisiau chwarae rhan wrth greu newid parhaol i deuluoedd ledled Cymru, yna rwy'n eich annog yn gynnes i wneud cais.

Byddwch yn ymuno â Bwrdd ymroddedig a phrofiadol sy'n gwerthfawrogi cydweithio, cynhwysiant a dysgu myfyriol. Byddwch hefyd yn rhan o elusen fywiog â phwrpas clir, tîm arwain cryf a diwylliant sy'n byw ei werthoedd go iawn.

Byddem wrth ein bodd yn eich croesawu i deulu Home-Start Cymru.

Jonathan Richards

**Jonathan Richards**

**Cadeirydd**
**Home-Start Cymru**



# Ynglŷn â Home-Start Cymru

Mae Home-Start Cymru yn elusen genedlaethol o Gymru sy'n gweithio ledled Cymru i gefnogi teuluoedd â phlant ifanc a allai fod yn wynebu anawsterau.

Credwn fod plant yn haeddu plentyndod diogel a hapus, a bod rhieni a gofalwyr yn chwarae'r rhan allweddol wrth roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant.

Mae ein gwirfoddolwyr a'n staff yn gweithio'n agos gyda theuluoedd, gan gynnig cymorth tosturiol, di-farn, anogaeth gan gymheiriaid a help ymarferol.

Yn 2025 – 26 cefnogwyd 1,153 o deuluoedd a 2,220 o blant gennym. Rydym yn gweithredu mewn sawl rhanbarth yng Nghymru gan gynnwys y Gogledd, y De, y Canolbarth a'r Gorllewin.

Mae ein gwasanaethau'n cynnwys ymweliadau cartref, grwpiau cymorth cymheiriaid, cymorth arbenigol wedi'i deilwra ar gyfer anghenion penodol, ac rydym yn cydweithio â phartneriaid cymunedol a sefydliadau statudol.

**Mae ein hamcanion strategol yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:**

### Blaenoriaeth 1: Chwyddo Llais Teuluoedd a Gwirfoddolwyr

Credwn fod newid parhaol yn digwydd pan glywir a gwerthfawrogir lleisiau teuluoedd.

Drwy gyd-gynhyrchu, partneriaeth ac eiriolaeth, byddwn yn grymuso rhieni, gofalwyr a phlant i rannu eu profiadau a llunio'r polisïau, y gwasanaethau a'r systemau sy'n effeithio ar eu bywydau. Drwy roi profiad bywyd ar y blaen, ein nod yw dylanwadu ar sgyrsiau cenedlaethol ar les teuluoedd, cymorth blynyddoedd cynnar a chydraddoldeb yng Nghymru.

### Blaenoriaeth 2: Meithrin Gwydnwch Ariannol, Digidol a Sefydliadol

Nid yw'r angen am ein gwaith erioed wedi bod yn fwy. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn ehangu ein cyrhaeddiad i sicrhau y gall pob teulu yng Nghymru gael mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy gryfhau ein sylfaen gwirfoddolwyr, arallgyfeirio ein gwasanaethau a ffurfio partneriaethau newydd ar draws sectorau a rhanbarthau. I ni, mae twf yn golygu maint a dyfnder. Mae'n golygu cefnogi mwy o deuluoedd a phob un yn profi cysylltiad ystyrlon sy'n newid bywyd.

### Blaenoriaeth 3: Gyrru Ansawdd a Chryfhau Effaith

Rydym wedi ymrwymo i welliant parhaus a rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn.

Mae hyn yn golygu buddsoddi yn ein pobl, ein systemau a'n tystiolaeth, ymgorffori safonau ansawdd, mesur canlyniadau a defnyddio data i ddysgu ac addasu. Byddwn yn parhau i arwain gyda thosturi, uniondeb ac arloesedd, gan sicrhau bod pob gweithred o gymorth a ddarparwn wedi'i gwreiddio mewn tystiolaeth, empathi ac effeithiolrwydd.

# Ein Strategaeth 2026 – 2030

Ein gweledigaeth strategol yw adeiladu ar ein cryfderau, dyfnhau ein heffaith a sicrhau nad oes unrhyw deulu yng Nghymru yn teimlo'n unig.

### » *Pwrpas*

Meithrin sgiliau a hyder teuluoedd fel y gall plant ddatblygu'n gadarnhaol a ffynnu.

### » *Gweledigaeth*

Cymru lle mae pob teulu'n teimlo'n hyderus, wedi'i gysylltu ac yn cael ei gefnogi i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

### » *Cenhadaeth*

Cynnig cymorth cynnar dibynadwy dan arweiniad gwirfoddolwyr sy'n meithrin hyder a lles y teulu cyfan. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd a phartneriaid i leihau unigedd, meithrin gwydnwch a chreu sylfeini cryf ar gyfer dyfodol plant.

## GWERTHOEDD AC YMDDYGIADAU

- **Hygyrchedd**
  Sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn ddefnyddiadwy i bob aelod o'r tîm
- **Parch Cydfuddiannol**
  Mynychu cyfarfodydd, rhoi ymddiheuriadau os na allwch fod yno, gadael i bawb siarad
- **Cyfathrebu Effeithiol**
  Anfon negeseuon e-bost cryno, egluro disgwyliadau ymateb
- **Preifatrwydd a Chyfrinachedd**
  Sicrhau gonestrwydd a thryloywder ym mhob cyfathrebu
- **Ffocws ar Wasanaeth**
  Blaenoriaethu gweithredoedd sydd o fudd i'n rhanddeiliaid
- **Eglurder**
  Osgoi jargon a rhoi cyfarwyddiadau clir ar gyfer gweithredu
- **Uniondeb**
  Sicrhau gonestrwydd a thryloywder ym mhob cyfathrebu
- **Diogelwch Seicolegol**
  Creu amgylcheddau lle croesewir a gwerthfawrogir adborth
- **Gwaith Tîm**
  Cydweithio ar draws adrannau i gyflawni nodau a rennir
- **EDIF**
  Croesawu safbwyntiau amrywiol a sicrhau tegwch
- **Atebolrwydd**
  Cymryd cyfrifoldeb a chyflawni ymrwymiadau
- **Prydlondeb**
  Rhannu gwybodaeth yn brydlon i gynnal perthnasedd

Pob ymddygiad sy'n ymwneud â dogfen Gwerthoedd ac Ymddygiadau HSC

Ymddygiadau ychwanegol sy'n benodol i arfer gorau Cyfathrebu Mewnol

# Ein heffaith ar gip


## Yn 2025/26, cefnogwyd gennym...




## Canlyniadau rhieni




## Canlyniadau plant



# Cyfleoedd Ymddiriedolwyr

Rydym bellach yn gwahodd ceisiadau gan Ymddiriedolwyr newydd i ymuno â'n Bwrdd a chyfrannu at gyflawni ein strategaeth 2026 – 2030. Mae hwn yn gyfle cyffrous i ddod â'ch arbenigedd, eich dealltwriaeth a'ch brwdfrydedd i elusen sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau teuluoedd ledled Cymru.

Rydym yn chwilio am ymddiriedolwyr a all gryfhau'r Bwrdd ac mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan y rhai â sgiliau a phrofiad penodol yn y meysydd canlynol:

- Codi arian, cynhyrchu incwm, datblygu busnes a menter gymdeithasol.
- Adnoddau dynol, datblygu'r gweithlu, diwylliant sefydliadol ac arweinyddiaeth.
- Polisi cyhoeddus, eiriolaeth, cysylltiadau â'r llywodraeth, dylanwadu ar y sector.
- Marchnata, cyfathrebu, ymgysylltu digidol a brandio.
- Seicoleg plant, CAMHS a/neu arbenigedd niwroamrywiaeth.
- Arbenigedd neu brofiad bywyd o'r cymunedau rydym yn eu cefnogi (er enghraifft teuluoedd â phlant ifanc, cymunedau Cymraeg eu hiaith, rhieni sengl, teuluoedd difreintiedig).
- Bydd ymddiriedolwyr yn gwasanaethu fel gwirfoddolwyr ac yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu goruchwyliaeth strategol, herio a chefnogi'r tîm arwain, a gweithredu fel llysgenhadon dros yr elusen.

## Ymrwymiad i Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn Home-Start Cymru, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog y cymunedau a wasanaethwn ledled Cymru. Credwn fod ystod eang o safbwyntiau, cefndiroedd a phrofiadau yn cryfhau ein gwneud penderfyniadau ac yn ein helpu i gael mwy o effaith i'r teuluoedd rydym yn eu cefnogi.

Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o gyrraedd a chynnwys mwy o bobl, gan arddel ein hunaniaeth, ein diwylliant a'n hiaith Gymreig, a hyrwyddo tegwch, amrywiaeth, cynhwysiant a hygyrchedd ym mhob maes o'n gwaith. Mae ein hymrwymiad i gynaliadwyedd hefyd yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyfrifol tuag at ein hamgylchedd a'n cymunedau.

Rydym yn annog ceisiadau'n gynnes gan bobl o bob oed, rhyw a chefndir, gan gynnwys y rhai o'r mwyafrif byd-eang, cymunedau LHDTC+, pobl anabl, a'r rhai â phrofiad bywyd o'r teuluoedd a'r cymunedau rydym yn eu cefnogi.

Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu Bwrdd a sefydliad sy'n cynrychioli ac yn gwasanaethu amrywiaeth Cymru yn wirioneddol.

# Bod yn Ymddiriedolwr

### Fel Ymddiriedolwr Home-Start Cymru byddwch yn:

- Sicrhau bod yr elusen yn parhau'n driw i'w hamcanion elusennol ac yn gweithredu mewn modd cynaliadwy yn ariannol.
- Darparu arweinyddiaeth strategol, gan sicrhau llywodraethu cadarn a rheoli risg effeithiol.
- Cefnogi'r Prif Weithredwr a'r tîm arweinyddiaeth hŷn, gan ddod â her adeiladol ac arbenigedd.
- Cynnal gwerthoedd ac enw da HSC, gweithredu fel llysgenhadon yn y sector ehangach a chymunedau Cymru.
- Helpu i lunio polisi, dylanwadu ar systemau a sicrhau bod lleisiau teuluoedd a gwirfoddolwyr yn ganolog i'n gwneud penderfyniadau.

### Ymrwymiad Amser

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd fel arfer wyneb yn wyneb, o leiaf bob chwarter. Mae opsiynau hybrid ar gael i gefnogi cyfranogiad pan fydd amgylchiadau'n galw am hynny. Efallai y gofynnir i chi hefyd fynychu 'cyfarfodydd arbennig' anaml iawn, ar-lein neu wyneb yn wyneb, os oes mater sydd angen ei drafod ar unwaith neu sydd angen mwy o amser nag y gallai cyfarfod Bwrdd ei ganiatáu. Ar gyfartaledd, mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob dau i dri mis. Disgwylir i ymddiriedolwyr dreulio amser yn darllen papurau'r Bwrdd cyn y cyfarfodydd. Disgwylir i chi hefyd gymryd rhan mewn o leiaf un diwrnod strategaeth/i ffwrdd blynyddol, ac o bosibl aelodaeth o un neu fwy o bwyllgorau neu weithgorau'r Bwrdd. Mae'r rôl yn wirfoddol (di-dâl); caiff costau teithio rhesymol a threuliau eraill eu had-dalu.

### Hyfforddiant

I gefnogi eich datblygiad proffesiynol, darperir rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a phroses gynefino i bob ymddiriedolwr wrth ei benodi, gan gynnwys yr holl adnoddau perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys mynediad at yr holl bolisïau a gweithdrefnau cyfredol, dogfennaeth lywodraethu, a chopïau o adroddiadau blynyddol a chyfrifon.

Efallai y caiff ymddiriedolwyr newydd hefyd eu neilltuo mentor, neu ymddiriedolwr profiadol arall ar y bwrdd, i ddarparu cymorth ac arweiniad am hyd at flwyddyn.

### Cymorth arall gennym ni:

Cynhelir pob cyfarfod mewn ffordd gynhwysol, gydag egwyliau gorffwys rheolaidd a lluniaeth.

Gellir darparu addasiadau penodol a rhesymol ar gyfer cyfathrebu.

# Manyleb Person

**Mae'r Comisiwn Elusennau yn amlinellu chwe phrif gyfrifoldeb ymddiriedolwyr:**

1. Sicrhau bod yr elusen yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd. Nid oes diffiniad cyfreithiol o fudd i'r cyhoedd, ond yn gyffredinol rhaid i'ch dibenion fod yn elusennol, yn fuddiol ac o fudd i'r cyhoedd neu i ran ddigonol ohono.
2. Cydymffurfio â dogfen lywodraethu'r elusen a'r gyfraith.
3. Gweithredu er budd gorau'r elusen.
4. Rheoli adnoddau'r elusen yn gyfrifol.
5. Gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol.
6. Sicrhau bod yr elusen yn atebol.

Ynghyd â'ch sgiliau penodol, mae'r canlynol yn amlinellu ein disgwyliadau o holl ymddiriedolwyr Home-Start Cymru. Caiff ceisiadau eu hasesu ar sail eich cyfraniad posibl i'r Bwrdd, nid dim ond eich profiad blaenorol. At ei gilydd, mae parodrwydd i weithio gyda'ch gilydd fel rhan o fwrdd sydd wedi ymrwymo i helpu Home-Start Cymru i gyflawni ei nodau yn hollbwysig.

### Rydym yn chwilio am rywun sydd:

**Hanfodol:**

- Wedi'i alinio'n gryf â gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd Home-Start Cymru.
- Yn gallu meddwl yn strategol, gofyn cwestiynau, herio'n adeiladol a gwneud dyfarniadau cadarn.
- Yn gyfforddus yn gweithio fel rhan o Fwrdd ar y cyd, gan gydweithio'n effeithiol â chydweithwyr, yr uwch dîm a rhanddeiliaid.
- Â phrofiad proffesiynol neu fywyd perthnasol a fydd yn cyfrannu'n ystyrlon at ein gwaith.
- Yn frwdfrydig dros hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ac wedi ymrwymo i weld pob teulu a chymuned yng Nghymru yn ffynnu.
- Yn gallu gweithredu fel llysgennad cadarnhaol i'r sefydliad, gan gyfleu ein stori, meithrin rhwydweithiau a hybu partneriaethau.

**Dymunol:**

- Profiad o gyd-destun Cymru, gan gynnwys dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg, diwylliant neu weithio'n ddwyieithog.
- Profiad o'r sector gwirfoddol/trydydd sector, cymorth plant a theuluoedd, iechyd cyhoeddus neu ofal cymdeithasol.
- Profiad o lywodraethu ar lefel bwrdd, rheoleiddio elusennau neu arweinyddiaeth sefydliadol.
- Rydym yn annog ceisiadau'n arbennig gan grwpiau a dangynrychiolir gan gynnwys pobl â phrofiad bywyd o'r teuluoedd rydym yn eu gwasanaethu, pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl sy'n siarad Cymraeg, a phobl ag anableddau.
- Rydym hefyd yn annog ceisiadau gan bobl sydd wedi'u lleoli yn y Canolbarth a'r Gogledd.
- Cefndir neu gymhwyster mewn Seicoleg Plant neu Addysg.

# Y Broses Ymgeisio

**Gallwch wneud cais gan ddefnyddio unrhyw un o'r fformatau canlynol:**

CV a llythyr eglurhaol yn cynnwys sut rydych yn bodloni ein gofynion a beth fyddech yn ei gyfrannu at y bwrdd.

**FIDEO**
Drwy YouTube neu Vimeo.

**SAIN**
Drwy ffeil sain.

Anfonwch drwy e-bost i jdrummond@homestartcymru.org.uk
gan ddefnyddio **'Cais Ymddiriedolwr'** fel y llinell pwnc.

Os ydych yn cyflwyno ffeil fawr, anfonwch hi drwy'r platfform rhannu rhad ac am ddim WeTransfer, ond rhowch wybod i ni drwy e-bost fel y gallwn ei lawrlwytho.

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol gyda'r Prif Weithredwr, y Cadeirydd neu aelod arall o'r bwrdd cyn gwneud cais, anfonwch e-bost i jdrummond@homestartcymru.org.uk i wneud trefniadau.

Gellir cynnal cyfweliadau **AR-LEIN** neu **WYNEB YN WYNEB**

Os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i wneud y broses recriwtio yn fwy hygyrch neu gynhwysol i chi, rhowch wybod i ni. Rydym wedi ymrwymo i broses recriwtio dryloyw a chynhwysol, ac yn croesawu sgyrsiau a chwestiynau i'ch helpu i benderfynu a yw'r rôl hon yn addas i chi.

Diolch am ystyried dod yn Ymddiriedolwr Home-Start Cymru. Gyda'n gilydd, gallwn helpu i sicrhau bod gan bob teulu yng Nghymru y cymorth sydd ei angen arnynt a bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.




# Cymru

**Home-Start Cymru**
**11-13 Penhill Road**
**Pontcanna**
**Caerdydd**
**CF11 9PQ**

**www.homestartcymru.org.uk**

**Elusen Gofrestredig: 1105577 Rhif Cwmni: 5199118**